


The logo for FRÂN WEN, featuring the words in a colorful, multi-colored font where each letter is composed of several overlapping colors. The logo is enclosed in a thin black rectangular border.

FRÂN WEN



Effaith gymdeithasol
prosiect Fi di Fi
Adroddiad Gwerthusiad
Adenillion
Cymdeithasol ar
Fuddsoddiadau (SROI)

“Tro cyntaf mewn adeg hir ers i fi deimlo yn braf yn croen fy hun. Mor hwylus a diddorol.”



Cynnwys

Crynodeb Gweithredol.....	2
Cydnabyddiaeth	3
1.0 Cyflwyniad.....	4
2.0 Cefndir a Chyd-destun	6
3.0 Methodoleg – Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiadau (<i>Social Return on Investment/SROI</i>).....	10
4.0 Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Chwmpas y Dadansoddiad	16
5.0 Mewnbynau’r Prosiect.....	20
6.0 Allbynau, Deilliannau a Dangosyddion	22
7.0 Amcangyfrif Gwerth Deilliannau.....	31
8.0 Cadarnhau Effaith	35
9.0 Canlyniadau SROI	38
10.0 Dadansoddiad Sensitifrwydd	40
11.0 Casgliad	42
12.0 Argymhellion	43
13.0 Atodiadau.....	44

Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar y dadansoddiad o'r gwerthusiad Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI) a gynhaliwyd ar brosiect Fi di Fi, sef rhaglen dwys tridiau ar gyfer plant a phobl ifanc er mwyn dathlu a dysgu am hunan les a sut i fynegi eu hunain yn well drwy ddefnyddio'r celfyddydau. Mae'r canlyniadau'n dangos bod gwerth cymdeithasol sylweddol yn cael ei greu drwy weithgareddau'r prosiect, gyda chanlyniad SROI o £3.76:1 –sy'n golygu, bod pob £1 a fuddsoddir yn creu gwerth o £3.76.

Cafodd y plant a phobl ifanc o'r ysgolion a drwy'r mudiad Gofalwyr Ifanc newidiadau positif, yn enwedig yn eu hunan hyder. Fodd bynnag, roedd yna werth uwch a mwy o ffocws ar gyfer y rhaglen Gofalwyr Ifanc ac roedd deilliannau o well hunan barch a theimlo yn fwy posib ar gyfer y dyfodol hefyd yn cael eu hadnabod.

Adroddodd yr athrawon a staff hefyd bod yna newidiadau positif i'w gweld yn y plant a bod nifer wedi mwynhau'r cyfle i ddysgu mwy am y celfyddydau, cyfle oedd yn brin iawn meddai rhai.

Cydnabyddiaeth

Ni fuasai'r adroddiad hwn wedi bod yn bosibl heb gynnwys rhanddeiliaid allweddol er mwyn deall pa newidiadau sydd wedi digwydd a chanfod eu heffaith. Roedd cyfranogiad y rhai a gefnogwyd gan y gwasanaeth yn hollbwysig, ac rydym yn hynod ddiolchgar iddynt am rannu eu profiadau gyda ni, ac am eu parodrwydd i'n helpu i ddeall beth sy'n digwydd. Diolch o galon i Frân Wen a Mari yn enwedig sydd yn amlwg yn angerddol dros ei gwaith.

Diolch yn fawr

Social Value Cymru

1.0 Cyflwyniad

Bydd yr adroddiad hwn yn dadansoddi gwerth y prosiect Fi di Fi, a ddarparwyd gan Cwmni Frân Wen ac a sefydlwyd ym Mawrth 2015. Bydd yr adroddiad yn ystyried effaith y gwasanaeth hwn ar blant a phobl ifanc, ond bydd hefyd yn ystyried ei werth i randdeiliaid eraill.

Trwy ymgysylltu ag unigolion sy'n derbyn y gwasanaethau a gyda'r mudiad, a thrwy archwilio'r wybodaeth a'r data sydd ar gael, gwnaethpwyd amcangyfrifon priodol, ac fe'u cefnogir gan dystiolaeth eilaidd.

Bydd yr adroddiad hwn yn dadansoddi canfyddiadau'r cynllun gan ddefnyddio fframwaith Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiadau (*Social Return on Investment/SROI*) i gwblhau adroddiad gwerthuso o Ionawr hyd at Rhagfyr 2019.

1.1 Pwrpas a Chwmpas

Dyma ragolwg Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiadau (*Social Return on Investment/SROI*) i fesur gwerth cymdeithasol rôl y prosiect Fi di Fi. Mae'r adroddiad hwn yn edrych yn benodol ar y deilliannau a'u gwerth i'r unigolion a gyfeiriwyd at y prosiect gydag amrywiol anghenion cymdeithasol megis bod yn unig neu'n ynysig.

Paratowyd yr adroddiad hwn i adolygu a chanfod y canlynol.

- Barn y buddiolwyr allweddol a fu'n rhan o'r prosiect, sef yr unigolion a gyfeiriwyd.
- Y deilliannau a brofwyd gan yr holl randdeiliaid perthnasol, ond bwysicaf oll, yr unigolion.
- Rhoi gwerth ar y gwasanaeth ac ateb y cwestiwn: 'a yw Fi di Fi yn cynnig gwerth da am arian?'.
- Gweld pa newidiadau y gellir eu cyflwyno i'r gwasanaeth i gyflawni mwy o ddeilliannau a gwerth

pellach i fuddiolwyr.

2.0 Cefndir a Chyd-destun

2.1 Y Mudiad Allweddol

Mae Cwmni Frân Wen yn gweithredu fel elusen gofrestedig (Rhif Elusen 1060546). Theatr i'r ifanc yw Cwmni Frân Wen sydd yn cyffroi, herio ac ysbrydoli.

Ein Gweledigaeth

Creu celfyddyd sy'n ysbrydoli'r dychymyg, y meddwl a'r galon ac sy'n dathlu rhyfeddod y byd.

Ein Cenhadaeth

Rydym yn gosod dyheadau plant a phobl ifanc wrth galon ein rhaglen o weithgareddau ac yn greiddiol i ddatblygiad strategol y cwmni. Rydym yn grymuso creadigrwydd plant a phobl ifanc trwy greu a chyflwyno theatr a phrofiadau aml-gelfyddydol safonol sy'n uchelgeisiol, blaengar a pherthnasol.

Ein Blaenoriaethau

Mae ein blaenoriaethau yn cynrychioli gwead ein cwmni. Mae pob blaenoriaeth yn cynnal, dylanwadu a herio'r llall mewn modd sy'n cryfhau a chyfiawnhau ein gweledigaeth:

Creu a chyflwyno theatr o'r safon uchaf sy'n cyffroi, herio ac ysbrydoli ein cynulleidfaoedd

Ymgysylltu ac annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn cynlluniau cyfranogi cynhyrfus, uchelgeisiol a chynhwysol sy'n meithrin talentau newydd yn y diwydiannau creadigol.

Buddsoddi mewn ymchwil a datblygu a gweithredu fel ffwrnais greadigol i arbrofi, cymryd risg a bod yn flaengar.

Ehangu dysg trwy greadigrwydd.

Creu'r amgylchedd gorau posib er mwyn sicrhau ffyniant ein creadigrwydd

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth, mynediad a chynhwysiant yn themâu sy'n atgyfnerthu ein blaenoriaethau.

2.2 Amlinelliad o'r Prosiect

Mae'r gwerthusiad yma yn rhan o waith Social Value Cymru sydd yn cael ei reoli gan Mantell Gwynedd ac yn cael ei arwain yn lleol drwy Medrwn Môn. Ffocws y prosiect yw penderfyniadau mewnol ac felly prif ffocws yr adroddiad yma bydd y gwerth i'r rhai sydd bwysicaf – sef y buddiolwyr. Mi fydd y canlyniadau yna yn cael eu defnyddio i wreiddio mesuriadau effaith gymdeithasol er mwyn helpu i wneud penderfyniadau gwell.

Mae Fi di Fi yn brosiect celfyddydol rhyngweithiol wedi ei anelu at blant a phobl ifanc ac sy'n hyrwyddo defnydd o'r celfyddydau fel cyfrwng mynegiant i warchod hunan lês.

Comisiynwyd y cwmni yn wreiddiol gan Gyngor Gwynedd i ddatblygu model fyddai'n hwyluso ysgolion i drafod hunan lês ac agweddau o iechyd meddwl mewn awyrgylch creadigol a diogel. Mae'n golygu cydweithio'n agos gydag ysgolion, staff, nyrsus ysgol a chwnselwyr yn y broses o gynllunio er mwyn sicrhau bod y prosiect yn berthnasol ac yn ateb gofynion penodol. Er yn ymdriniaeth holistaidd ac uniongyrchol mae'r themâu ffocws sydd wedi codi mewn ysgolion hyd yma wedi cynnwys hunan anafu, trais yn y cartref, rhywioldeb a hunanddelwedd.

Mae Fi di Fi yn brosiect dwys sy'n cael ei gyflwyno dros gyfnod o dridiau mewn ysgolion a hynny dan arweiniad artistiaid proffesiynol sydd wedi eu hyfforddi'n briodol i allu cyflwyno'r prosiect. Mae'r cyfryngau celfyddydol a gyflwynir yn eang ac yn cynnwys dawn, ffilm, cerddoriaeth, celf weledol, drama ac ysgrifennu creadigol.

Cafodd y prosiect ei ariannu gan Gyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a chafodd ei gomisiynu ar gyfer 5 ysgol ac mae'n rhan allweddol o raglen gyfranogi'r cwmni.

Yna, fe ymestynnwyd y prosiect i ragor o ysgolion a hefyd i gydweithio gyda gofalmwyr ifanc a ffoaduriaid.

2.3 Canfod yr Angen a'r Cyd-destun Strategol

Mae heriau gwariant cyhoeddus yn golygu bod pwysau cynyddol ar wasanaethau statudol, ac felly mae angen rhoi blaenoriaeth i ystyried ffyrdd eraill o gynnig gwasanaethau. Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi pwyslais ar hyn ac hefyd yn edrych ar sut gallwn gefnogi unigolion i warchod llesiant eu hunain ac hefyd i gael llais yn yr hyn sydd yn bwysig iddynt.

Lluniwyd Asesiad Anghenion y Boblogaeth¹ fel ymateb i'r ddeddfwriaeth newydd yng Nghymru, i ganiatáu asesiad anghenion manwl fesul ardal leol. Cafodd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu sefydlu i sicrhau bod yr holl wasanaethau yn gweithio gyda'i gilydd i ymateb i'r anghenion hyn yn lleol a chreu gwell dyfodol yng Nghymru.²

Dengys y data bod nifer o ofalwyr ifanc yng ngogledd Cymru wedi cynyddu. Yn yr adroddiad³ hwn cyfeirwyd at y pwyntiau isod cafwyd ei adrodd gan Ymddiriedoleth Gofalwyr Cymru,

- Amcangyfrifir bod 29,000 o ofalwyr dan 25 oed yng Nghymru, 17,500 ohonynt dros 18 oed, ond mae ymchwil yn awgrymu y gall y nifer hwn fod yn sylweddol uwch. O holl ardaloedd y DU, Cymru sydd â'r gyfran uchaf o ofalwyr sy'n oedolion ifainc.
- Gwelwyd yn glir mewn ymchwil ledled y DU (Prifysgol Nottingham a'r Carers Trust) fod gofalwyr sy'n oedolion ifanc yn grŵp o bobl nad ydynt yn cael eu hadnabod na'u cefnogi'n llawn.
- Ar gyfartaledd, mae cyflawniad gofalwyr ifanc 9 gradd yn is mewn arholiadau TGAU.

¹ Ymgynghoriadau Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn (2016). <https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholis%C3%AFau/Gwasanaethau-cymdeithasol-a-iechyd/Asesiad-Poblogaeth-Gogledd-Cymru.aspx>

² Llywodraeth Cymru (2016) <https://gov.wales/topics/improvingservices/public-services-boards/?lang=cy>

³ https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/wp-content/uploads/2017/04/NW-Population-Assessment-1-April-2017_cym.pdf

- Ar gyfartaledd, mae gofalwyr sy'n oedolion ifanc yn colli 48 o ddiwrnodau ysgol cyfan neu rannol bob blwyddyn (bron 5 wythnos).
- Mae gofalwyr sy'n oedolion ifanc bedair gwaith yn fwy tebygol o roi'r gorau i addysg uwch.
- Roedd un o bob pedwar gofalwr ifanc yn dweud iddynt gael eu bwlio oherwydd eu rôl ofalu.

Cydnabyddir yr angen cynyddol i gefnogi pobl gyda materion iechyd meddwl, ac mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi 'Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2016–2019'⁴ mewn ymateb i'r angen hwn. Mae nifer o'r pwyntiau gweithredu yn y Cynllun hwn yn ymateb i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014⁵ sy'n gweddnewid y modd y cyflenwir Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hyn hefyd yn ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015⁶ sydd â'r nod o:

- edrych ar bethau yn yr hirdymor
- gydweithio yn well gyda phobl a chymunedau, a gyda'i gilydd
- geisio rhwystro problemau rhag gwaethygu a gweithio mewn modd mwy cydgysylltiedig.

Un o egwyddorion sylfaenol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yw ataliaeth ac ymyrraeth gynnar.

Un o brif flaenoriaethau Comisiynydd Plant yng Nghymru yw edrych ar ofalu dros iechyd meddwl plant a phobl ifanc⁷. Wrth ymgysylltu gyda rhanddeiliad cyfeirwyd at un thema cyson sef problemau iechyd meddwl a sut roedd plant cynradd ac uwchradd yn poeni am fod dan bwysau ac hefyd yn pryderu am rannu teimladau am bethau megis bwlio, rhyw, perthnasau ayb.

Byddem yn ystyried y ddeddfwriaeth ac ar argymhellion uchod wrth asesu prosiect Fi di Fi.

⁴ Llywodraeth Cymru (2016). <https://gov.wales/docs/dhss/publications/161010deliverycy.pdf>

⁵ Llywodraeth Cymru (2016) <https://gov.wales/topics/health/socialcare/act/?lang=cy>

⁶ Llywodraeth Cymru (2016) <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=cy>

⁷ <https://www.childcomwales.org.uk/our-work/sallys-blog/mental-health-for-all/>

3.0 Methodoleg – Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiadau (*Social Return on Investment/SROI*)

O ofyn cwestiynau penodol i'r rhanddeiliaid sydd â'r profiad mwyaf helaeth o weithgaredd, gall SROI feintoli, ac yn y pen draw, roi gwerth ariannol ar effeithiau er mwyn eu cymharu â chostau creu'r effeithiau hynny. Nid yw hyn yn golygu y gall SROI ddweud beth yw "gwir" werth y newidiadau, ond trwy ddefnyddio amrywiol ffynonellau i fynegi gwerth ariannol, gall gynnig gwerthusiad o brosiectau sy'n newid y modd y caiff gwerth ei gyfrif – gan ystyried effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Yn ôl Social Value UK (2014):

"Mae SROI yn ceisio cynnwys gwerthoedd pobl sydd yn aml wedi'u cau allan o'r marchnadoedd gan ddefnyddio'r termau a ddefnyddir mewn marchnadoedd, hynny yw: arian, er mwyn rhoi llais i bobl mewn penderfyniadau am ddyrannu adnoddau"

Wedi'i seilio ar saith egwyddor, mae SROI yn defnyddio profiadau'r bobl sydd wedi profi newidiadau yn eu bywydau, neu a fydd yn eu profi, fel sail ar gyfer dadansoddiad gwerthusol neu ragolwg, yn ôl eu trefn.

Mae mynd ati i fesur effaith mewn modd mwy holistig yn golygu y gellir cyfrif am newidiadau cadarnhaol, negyddol, bwriadol ac anfwriadol ar y Map Gwerth a grëir – ac yn y pen draw, o gymharu costau cymharol eu creu, pennir yr SROI. Dangosir y fformiwla a ddefnyddir i gyfrifo'r SROI terfynol isod:

SROI = Gwerth net presennol y buddion

—————
Gwerth y mewbynnau

Er enghraifft, mae canlyniad o 4.50:1 yn dangos bod £4.50 o werth cymdeithasol yn cael ei greu am bob £1 a fuddsoddwyd.

Fodd bynnag, mae SROI yn llawer mwy na dim ond rhif. Stori newid yw SROI, sy'n cynnwys costau a buddion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd, gan ymfyn tystiolaeth feintiol ac ansoddol.

Mae dau fath o adroddiad SROI: ceir adroddiadau gwerthuso ac adroddiadau rhagolwg. **Adroddiad gwerthuso SROI yw hwn, gan ein bod yn mesur y canlyniadau rhwng Ionawr a Rhagfyr 2019.** Nid yw SROI yn cynnig dull caeth o fesur gwerth cymdeithasol, ond yn hytrach, fe'i seilir ar saith egwyddor, a'r rhain sy'n tanategu sut y dylid cymhwyso SROI. Bwriad yr egwyddorion hyn yw cynnig cysondeb, a chynnig hyblygrwydd ar yr un pryd i gydnabod a chynnwys profiadau amrywiol gwahanol bobl, ac fe'u hamlygir yn Ffigur 2.

Ffigur 2 – Egwyddorion Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiadau ⁸



⁸ www.socialvalueuk.org

Mae'r egwyddorion hyn yn drosfwaol i bopeth a wnawn yn ystod y dadansoddiad, ac maent hefyd yn ffurfio fframwaith da i unrhyw fudiad ei ddilyn. Yn ogystal â'r egwyddorion, mae chwe cham i gynnal dadansoddiad SROI, fel y gwelir yn Ffigur 3.

Ffigur 3 – Camau canfod Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiadau⁹

Cam 1 Sefydlu cwmpas a chanfod y rhanddeiliaid allweddol

Cam 2 Mapio'r deilliannau

Cam 3 Tystiolaeth o'r deilliannau a phennu eu gwerth

Cam 4 Cadarnhau'r Effaith


Cam 5 Cyfrifo'r SROI

Cam 6 Adrodd, defnyddio a gwreiddio

Bydd gwahanol ddadansoddiadau yn defnyddio gwahanol dechnegau i gipio data, ond mae cadw at yr egwyddorion arfer da hyn yn sicrhau mai *sut* caiff effaith cymdeithasol ei fesur sy'n ganolog bob amser. O ganlyniad i hynny, caiff cadwyni newid eu creu ar gyfer pob rhanddeiliad perthnasol ar y Map Gwerth (Atodiad 3) sy'n mynegi'r broses o drawsnewid o'r mewnbynnau angenrheidiol, i'r allbynnau uniongyrchol, i'r deilliannau mesuradwy terfynol. Mae Ffigur 4 yn dangos elfennau sylfaenol y Gadwyn Newid, er mai mynegiad gor-sympl yw hwn wrth ystyried newidiadau cymhleth.

Ffigur 4 – Y Gadwyn Newid

⁹ www.socialvalueuk.org



Gall mewnbynnau fod yn adnoddau ariannol neu anariannol. Er enghraifft, er bod arian yn angenrheidiol i brosiect, bydd sicrhau llwyddiant hefyd yn dibynnu ar bobl yn rhoi amser, arbenigedd ac adnoddau annirweddol eraill.

Yn aml, allbynnau gweithgareddau yw'r peth a fesurir, ond mae'n bwysig nodi nad yw allbynnau'n dangos llwyddiant neu fethiant gweithgareddau. Ystyriwch, er enghraifft, cwrs sy'n darparu cyngor a sgiliau i alluogi pobl i gael gwaith, a hwnnw'n mesur dim ond y nifer a fynychodd pob cwrs fel allbwn; nid yw hyn yn dangos llwyddiant neu fethiant cymharol deilliant hollbwysig y cwrs, sef: pobl yn cael gwaith. Beth bynnag yw'r gweithgaredd, dim ond trwy fesur y deilliannau y cawn sicrwydd bod yr ymyrraeth yn gweithio, ac ar hynny mae SROI yn canolbwyntio.

Y gwahaniaeth allweddol gydag SROI yw ei fod yn ein galluogi i roi gwerth ariannol i ddeilliannau perthnasol, ac wedyn defnyddir egwyddorion cyfrifo i lywio'r dadansoddiad tuag at ddealltwriaeth o effeithiau'r gweithgareddau. Yn unol â'r egwyddor o beidio â gor-hawlio, rhaid gofyn cwestiynau allweddol am bob deilliant er mwyn deall gwerth y newid a ddaeth yn sgil yr ymyrraeth, sef:

- Pa mor hir fydd y newid yn parhau (parhad)?

- Pa mor debygol ydyw y byddai'r newid hwn wedi digwydd heb yr ymyrraeth (difuddiant)?
- Pwy arall gyfrannodd i'w greu (priodoliad)?
- A yw'r gweithgareddau hyn wedi dadleoli deilliannau a fuasai wedi digwydd yn rhywle arall (dadleoliad)?
- Pa leihad fydd yng ngwerth y newid a greodd yr ymyrraeth mewn blynyddoedd i ddod (gostyngiad)?


Yn gryno, gall SROI fynegi dealltwriaeth o'r gwerth holistig a grëwyd ac a ddinistriwyd o ganlyniad i weithgareddau. O ddeall gwerth y deilliannau, rydym mewn gwell sefyllfa i'w rheoli gan ein bod yn deall yn well pa mor gymharol bwysig ydynt a gallwn dargedu strategaethau ac adnoddau'n fwy effeithiol. Nid ymgais i roi pris ar bopeth yw rhoi gwerth ariannol ar ddeilliannau; fe ddyluniwyd y dull i ganiatáu nid yn unig mesur ystyrion o effeithiau, ond hefyd, yn bwysicach fyth, er mwyn eu rheoli ar ôl eu mesur. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i fudiadau'r trydydd sector, gan fod cadw at genhadaeth gymdeithasol yn gosod dyletswydd foisol ar ysgwyddau penderfynwyr i fwyhau eu hadnillion cymdeithasol. Gall SROI bontio'r bwlch atebolrwydd sy'n aml yn bresennol rhwng y rhai sydd â'r grym i wneud penderfyniadau a'r rhai y bwriedir i'r penderfyniadau hynny eu targedu.

4.0 Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Chwmpas y Dadansoddiad

Cynnwys rhanddeiliaid yw hanfod SROI. Heb gynnwys rhanddeiliaid allweddol, nid yw'r canlyniadau'n ddilys – dim ond trwy ymgysylltu go iawn y gallwn ddeall pa newidiadau a wireddwyd neu gael rhagolwg ar y newidiadau yn eu bywydau. Dyma'r unig ffordd i SROI werthfawrogi'r rhai pwysicaf un.

I ddeall beth sy'n bwysig ar gyfer dadansoddiad, ystyrir a yw'r peth hwnnw'n berthnasol. Defnyddir y cysyniad hwn mewn cyfrifo confensiynol hefyd, ac mae'n golygu bod SROI yn canolbwyntio ar y rhanddeiliaid pwysicaf a'u deilliannau pwysicaf hwy, wedi'i seilio ar ddau gysyniad: perthnasedd ac arwyddocâd (gweler Ffigur 5). Mae un yn canfod a yw deilliant yn bwysig i rhanddeiliaid, a'r llall yn canfod gwerth perthynol y newidiadau. Yn y lle cyntaf, ar gyfer gwerthusiad Fi di Fi, adnabuwyd amrywiaeth o rhanddeiliaid fel rhai sy'n effeithio ar y prosiect, neu'n cael eu heffeithio arnynt ganddo. Mae Tabl 1 yn dangos yr holl rhanddeiliaid, gan nodi a oeddent yn cael eu hystyried yn berthnasol i'w cynnwys yn y dadansoddiad SROI ai peidio.

Ffigur 5 – Egwyddor Perthnasedd



Tabl 1 – Rhestr Rhanddeiliaid a Pherthnasedd

Rhanddeiliaid	Rhanddeiliad perthnasol?	Eglurhad
Plant / Pobl ifanc	Ydi	Y rhain yw buddiolwyr allweddol y gwasanaeth ac felly hwy yw'r rhanddeiliaid pwysicaf a bydd rhai o'r newidiadau y maent yn eu profi yn berthnasol ac yn arwyddocaol.
Aelodau o'r teulu	Nac ydi	Er bod potensial i'r newidiadau i'r unigolion gael effaith ar aelodau eraill o'r teulu, yn anffodus nid oeddem yn gallu ymgysylltu â hwy ar gyfer y dadansoddiad hwn.
Frân Wen	Ydi	Mae cyfranogiad y cwmni yn hanfodol ar gyfer creu unrhyw newidiadau. Felly, rhaid cynnwys adnoddau ariannol a mewnbwn aelodau allweddol o staff. Fodd bynnag, ni chynhwysir y newidiadau a brofwyd gan y mudiad gan nad ydynt yn berthnasol i'r prosiect.
Ysgolion	Nac ydi	Fel asiant cyfeirio allweddol, mae gweithio mewn partneriaeth â hwy yn hanfodol er mwyn llwyddiant y gwasanaeth. Fodd bynnag, nid ydym wedi edrych ar yr effaith yma gan ei fod tu hwnt i sgôp y dadansoddiad.
Y Gwasanaethau Cymdeithasol	Nac ydi	Mae'n bosib bod rhai o'r deilliannau ar gwaith ataliol yn creu arbedion posib i wasanaethau statudol yn y pen draw. Fodd bynnag, nid ydym wedi edrych ar yr effaith yma gan ei fod tu hwnt i sgôp y dadansoddiad.
Gwasanaethau iechyd	Nac ydi	Mae'n bosib bod rhai o'r deilliannau ar gwaith ataliol yn creu arbedion posib i wasanaethau statudol yn y pen draw. Fodd bynnag, nid ydym wedi edrych ar yr effaith yma gan ei fod tu hwnt i sgôp y dadansoddiad.

4.1 Is-grwpiau Posibl o Unigolion

Mae'n bwysig cydnabod nad yw pob unigolyn yr un fath. Gall deall bod gwahanol nodweddion yn cael effaith ar y data ein helpu i reoli a goleuo penderfyniadau. Felly, rhoddir ystyriaeth yn Tabl 2 isod i'r grwpiau amrywiol a gymerodd rhan.

Tabl 2 - Grwpiau Fi di Fi

Grwpiau	Nifer o blant / pobl ifanc
Ysgolion Cynradd	Deganwy (40), Glan Morfa (70), Glancegin (26), Bro Lleu (20)
Ysgolion Uwchradd	Dyffryn Nantlle (67)
Gofalwyr Ifanc	12

Mae cynnwys rhanddeiliaid o'r cychwyn cyntaf yn hanfodol er mwyn dylanwadu ar unrhyw brosesau gwaith papur a monitro i ddeall pa newidiadau posibl all ddigwydd. Gan fod y prosiect hwn yn newydd, datblygwyd systemau monitro gan ddefnyddio ymchwil eilaidd ar effaith prosiectau eraill tebyg.

Nawr fod y rhanddeiliaid sy'n berthnasol i'r dadansoddiad wedi'u pennu, dengys Tabl 3 faint y poblogaethau, maint y sampl a ymgysylltwyd â hwy a'r dull o ymgysylltu.

Cynhaliwyd sgwrs gychwynol gyda'r Rheolwr a sawl trafodaeth gyda'r Mentor Creadigol i ddeall y cwmpas a'r rhestr posibl o randdeiliaid. Yn ogystal â monitro trwy'r gwaith papur, cynhaliwyd ymweliadau a grwpiau ffocws.

Yn wahanol i ddulliau meintiol, nid oes dull ystadegol o ganfod y nifer perthnasol o gyfweiliadau ansoddol y dylid eu cynnal. Yn hytrach, mae'n bwysig cynnal digon ohonynt i gyrraedd pwynt dirlawnder – hynny yw, pan nad oes gwybodaeth newydd yn cael ei ddatgelu.

Tabl 3 – Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Rhanddeiliaid	Maint y boblogaeth	Dull ymgysylltu
Pobl Ifanc	235	Ymweliad gyda ysgol yn 2018 er mwyn ein helpu i ddeall y deilliannau Grŵp Ffocws gyda 3 gofalwyr ifanc 54 x Dadansoddi data gwaelodlin ac adolygu Hefyd derbyn adborth gan athrawon
Cwmni Frân Wen	1	Cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Rheolwr a Mentor Creadigol

5.0 Mewnbynnau'r Prosiect

Yn y rhan hon o'r adroddiad, disgrifir y mewnbynnau'r oedd eu hangen gan amryw o randdeiliaid.

Mae rhai mewnbynnau'n ariannol, a rhai eraill yn anariannol – ond pan bynnag fo'n bosibl, rhoddir gwerth ariannol i fewnbynnau.

5.1 Pobl ifanc

Mae'r gwasanaeth hwn am ddim i'r rhai sy'n ei dderbyn, ond mae angen rhai mewnbynnau anariannol hefyd i sicrhau unrhyw newidiadau. Mae eu parodrwydd i weithio gyda'r artistiaid a cymryd rhan actif yn y gweithgareddau yn bwysig. Roedd yr angen i gymryd rhan ond hefyd i fod yn agorei drafod teimladau hefyd yn bwysig ac i barchu eraill yn y grŵp.

I rai roedd y gweithgareddau yn golygu eu bod yn teimlo ychydig yn anesmwyth gan ei fod yn rywbeth gwahanol iawn i'r hyn roeddent wedi ei wneud yn flaenorol ac felly roedd angen elfen o ffydd yn y staff a'r prosiect.

O ran y gofaluwr ifanc, roedd nifer gyda hyder isel iawn ac felly roedd dod yn rhan o rywbeth newydd yn creu ychydig o bryder ar y dechrau. Wrth gymryd rhan ac agor allan dros amser roedd hyn yn allweddol er mwyn adnabod unrhyw newid.

5.2 Cwmni Frân Wen

Cwmni Frân Wen sy'n rheoli'r mewnbyn ariannol. Rhoddwyd mewnbyn ariannol o £11,212 yn ystod 2019 ac yn ran o wasanaethau craidd y cwmni. Mae'r cwmni yn rhan o bortffolio refeniw Cyngor Celfyddydau Cymru ac mae'r arian yma yn dod drwy Llywodraeth Cymru.

Mae gallu'r staff a'r artistiaid i weithio gydag unigolion mewn modd empathig, a sensitif yn

allweddol bwysig. Mae gallu'r staff i fod yn hyblyg ac addasu i anghenion hefyd yn bwysig.

5.4 Cyfanswm gwerth ariannol y mewnbynnau

Cyfrifwyd mai cyfanswm mewnbynnau'r prosiect dros y cyfnod 12 mis cyfan yw £11,212, sy'n cynnwys mewnbynnau ariannol ac anariannol gan yr amrywiol randdeiliaid a enwir uchod. Dangosir yr wybodaeth hon yn Nhabl 4, a chaiff ei gymharu â'r costau fesul unigolyn.

Tabl 4 – Cyfanswm Gwerth Ariannol Mewnbynnau ar gyfer Fi di Fi

Rhanddeiliad	Mewnbwn ariannol	Mewnbwn anariannol	Cost fesul unigolyn
Plant a phobl ifanc	N/A	Parodrwydd i gymryd rhan a bod yn agored i syniadau newydd.	N/A
Cwmni Frân Wen	£11,212	Rheolaeth strategol, amser, arbenigedd	
Cyfansymiau	£11,212		£42 fesul unigolyn

6.0 Allbynnau, Deilliannau a Dangosyddion

6.1 Allbynnau

Allbynnau uniongyrchol y prosiect Fi di Fi yw'r nifer o gyfeiriadau i'r prosiect a sawl sesiwn cafwyd.

Yn y cyfnod o Ionawr i Ragfyr 2019, cafwyd 270 o gyfeiriadau at y prosiect a hynny unai drwy'r ysgol neu drwy'r mudiad Gofalwyr Ifanc. Mae'r tabl ar dudalen 19 yn dangos o lle ddaeth y cyfeiriadau yma. Penderfynwyd peidio a cynnwys Hafod Lon yn yr asesiad gan nad oedd unrhyw asesiad ansoddol na meintiol wedi ei wneud yma, ond mae'n bwysig adeiladu ar hyn yn y dyfodol.

Roedd nifer y sesiynau yn amrywio. Y cynllun oedd cael tridiau ond mi wnaeth hyn amrywio ychydig o ysgol i ysgol. Roedd rhain yn ddiwrnodau llawn yn yr ysgol a cafwyd amrywiaeth o weithgareddau yn ystod y cyfnod yma er mwyn cyrraedd y nodau ac amcanion. Yn y pecyn adnoddau¹⁰ cofnodwyd yr isod fel y nodau.

Nod ac amcanion y prosiect a ariennir gan **Gyngor Gwynedd** a **Chyngor Celfyddydau Cymru** yw:

- Gwella dealltwriaeth o hunan lês
- Annog empathi ymysg cymrheiriaid
- Datblygu sgiliau mewn amryw o feysydd celfyddydol
- Adnabod y celfyddydau fel cyfrwng mynegiant
- Mwynhau, adnabod a dathlu llwyddiant

Mae'r gweithgareddau yn amrywio ac yn cynnwys tasgau megis sgwrs anffurfiol i drafod hapusrwydd a iechyd meddwl, creu jariau sydd yn cynrychioli llefydd maent yn teimlo yn saff, gorwedd a myfyrio, bocs teimladau ac creu ardaloedd er mwyn trafod am deimladau. Y bwriad drwy gomisiynu y gwaith yma oedd trafod hunan les ac agweddau o iechyd meddwl mewn awyrgylch greadigol.

Dangosir Cadwyn Newid ar gyfer unigolion yn Atodiad 2, sy'n dangos stori'r hyn a all ddigwydd i

¹⁰ <http://www.franwen.com/wp-content/uploads/2015/11/PecynFiDiFi.pdf>

unigolion, ac mae Tabl 5 isod yn rhoi crynodeb o'r holl randdeiliaid a'u hallbynnau ac yn edrych ar yr holl ddeilliannau posibl a gafodd eu hystyried ar ôl ymgysylltu â'r holl randdeiliaid. Rhoddir ystyriaeth i beth gaiff ei gynnwys a'i hepgor, ac yna caiff ei ddangos yn y Gadwyn Newid.

Astudiaeth Achos 1 – Disgybl Bl. 8 Ysgol Dyffryn Nantlle

Roedd Plentyn A yn amlwg i staff Frân Wen wrth gerdded i mewn i'r ystafell fel un oedd yn dawel o fewn grŵp (h.y. ddim yn un o'r unigolion mwy uchel eu cloch!) ond fe wnaethom benderfynu parhau i wneud y cyfarchiad rydym yn gwneud fel arfer wrth ddechrau prosiect, sef cael pawb yn y cylch i ddweud eu enw. Os yr ydym yn gweld bod plentyn yn stryglo neu yn amlwg iawn ddim eisiau siarad, mi wnawn bob tro roi'r opsiwn i'r plentyn ddweud 'pass'. Ond wnaethon ni feirniadu y byddai'r plentyn yma yn iawn gyda'r weithgaredd. Pan ddaeth ei dro ef i ddweud ei enw, mi ddweud ei enw ac fe basiodd y foment. Aeth ymlaen i i mewn ym mhob un o weithgareddau'r diwrnod, gan gynnwys meimio 'routine' boreol mewn parau a chreu map creadigol o'r ardal.

Ar ddiwedd y dydd, wrth sgwrsio gyda'r athrawes o'r ysgol yn bresennol, dywedodd wrthym ei bod erioed wedi y plentyn yma yn dweud gair o'r blaen, heb sôn am wneud flaen y dosbarth.



wnaeth ymuno

a oedd clywed hynny o

Mae hyn yn sylw rydym yn clywed dro ar ôl tro gan athrawon, am blant yn dangos hyder sydd heb ymddangos o'r blaen wrth allu gwneud gweithgareddau sy'n torri allan o batrwm arferol yr ysgol a chael mynegi eu hunain drwy ddull anarferol; yn yr achos hwn, y celfyddydau.

Tabl 5 – Deilliannau'r Rhanddeiliaid

Rhanddeiliad	Allbynnau	Deilliannau	Wedi'i gynnwys / Wedi'i hepgor
Pobl ifanc	Cyfeiriad gan yr ysgol neu Gofalwyr Ifanc. Tri sesiwn yn arferol ond ychydig o amrywiaeth.	Cyfle i gael hwyl a gwneud rhywbeth gwahanol	Wedi'i hepgor – Roedd hwn yn gyfle i wneud rhywbeth gwahanol i'r arfer o fewn ysgol ac yn gyfle i gael ffocws benodol ar eu hunain ac hefyd dysgu mwy am y celfyddydau. Roedd rhai yn teimlo nad oedd digon o amser yn arferol i edrych ar y celfyddydau. Fodd, bynnag i rai roedd hyn yn gyfle i gael newid a chael hwyl yn fwy na dysgu efallai. Er ei fod yn berthnasol i rai, nid oedd yn arwyddocaol.
		Cael dod i adnabod pobl newydd sydd yn rhannu rhai teimladau tebyg	Wedi'i hepgor – Dyma ddeiliant canolraddol sy'n arwain at holl ddeilliannau terfynol y prosiect hwn. Eglurodd llawer o'r unigolion ei fod yn gyfle i fod yn agored a dysgu mwy am eu cyfoedion. O fewn ysgol – roeddent yn adnabod ei gilydd yn barod a felly roedd rhannu teimladau yn anodd i rai, ond o ran y gofalwyr ifanc roeddent mewn sefyllfaeodd tebyg ac felly roedd hyn yn bwysig.
		Cyfle i ddysgu sgiliau newydd a dysgu mwy am y celfyddydau a ffyrdd gwahanol o fynegi eu hunain	Wedi'i hepgor – Roedd nifer yn cyfeirio at pa mor bositif oedd cael dysgu mwy am y celfyddydau gan nad oedd llawer o fewn ei dysgu arferol. I'r gofalwyr ifanc, roedd llawer yn cyfeirio at beth roeddent rwan yn ei wneud pan yn teimlo yn isel e.e. gwrando ar gerddoriaeth neu creu darn o gelf. Roedd rhai o'r ysgolion hefyd yn sôn am hyn ac am fyfyrion.
		Mwy o sicrwydd am eu teimladau	Wedi'i hepgor – Roedd hyn yn berthnasol i lawer, ond nid oedd yn arwyddocaol, ond mae hefyd yn arwain at y deiliant o well hunan barch a gwell hyder yn eu hunain.
		Medru bod yn onest gyda'u hunain ac eraill	Wedi'i hepgor – Dyma ddeiliant allweddol a brofwyd gan rai unigolion ac mae'n arwyddocaol ac yn berthnasol. Mae'n arwain ar y deilliannau eraill.
		Mwy ymwybodol o sut i ddelio gyda theimladau anodd a beth i wneud os yn drist	Wedi'i hepgor – Dyma ddeiliant canolraddol sy'n arwain at holl ddeilliannau terfynol y prosiect hwn. Eglurodd llawer o unigolion bod y prosiect yn helpu idynt gael restr o bethau gall eu helpu pan maent yn teimlo yn drist neu yn isel neu o dan bwysau.
		Negyddol – teimlo yn fwy pryderus	I rai nid oedd y gweithgareddau yma yn rywbeth roeddent yn mwynhau ac yn ei gwneud i deimlo ychydig yn anghyfforddus.
		Negyddol – teimlo yn waeth gan nad oedd newid wedi digwydd	Nid oedd pawb wedi profi newid ac felly mae angen ystyried os oeddent yn teimlo yn waeth gan eu bod wedi cymryd rhan ond heb brofi newid. Mae hwn yn rhywbeth i'r cwmni edrych yn fanylach arno yn y dyfodol.
		Gwell hunan barch	Wedi'i gynnwys – Dyma ddeiliant allweddol a brofwyd gan rai unigolion ac mae'n arwyddocaol ac yn berthnasol.

Teimlo yn fwy positif at y dyfodol	Wedi'i gynnwys – Dyma ddeiliant allweddol a brofwyd gan rai unigolion ac mae'n arwyddocaol ac yn berthnasol.
Gwell hyder yn fy hunan a beth gallaf gyflawni	Wedi'i gynnwys – Dyma ddeiliant allweddol a brofwyd gan rai unigolion ac mae'n arwyddocaol ac yn berthnasol.

6.2 Deilliannau a Dangosyddion

Fel y pwysleisiwyd eisoes, dim ond trwy fesur deilliannau y gallwn fod yn sicr bod gweithgareddau'n effeithiol i'r rhai pwysicaf un yn y prosiect hwn. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn trafod y deilliannau a brofwyd gan bob rhanddeiliad perthnasol, a hefyd yn archwilio'r deilliannau sy'n cynrychioli pen draw'r daith yn y cadwyni newid ar gyfer pob rhanddeiliad (ac sydd felly wedi'u cynnwys ar y Map Gwerth). Mae'n hanfodol ein bod yn nodi deilliannau penodol er mwyn deall beth sydd wedi newid o ganlyniad i'r gweithgareddau, ond nid yw bob amser yn hawdd nodi'r cysylltiadau damweiniol rhwng amrywiol rhanddeiliaid a'u deilliannau. Mae Atodiad 2 yn dangos y cadwyni newid cyffredinol ar gyfer y rhai a gymerodd ran yn y prosiect Fi di Fi, ac mae'n amlygu'r rhai a gynhwyswyd yn y drafodaeth hon a'r rhai a gafodd eu hepgor o'r dadansoddiad.

6.2.1 Plant a phobl ifanc

Deilliant 1 – Gwell hunan barch

Un o brif amcanion y prosiect yw cefnogi unigolion i fagu hyder a gwerthfawrogi hunan lês a mwynhau a dathlu llwyddiant.

Yn ystod y grŵp ffocws gyda'r gofawlyr ifanc, roeddent i gyd yn disgrifio sut roeddent yn teimlo bod y prosiect wedi eu helpu i feddwl mwy am eu hunain, ac bod hynny yn beth bositif,

“Tro cyntaf mewn adeg hir ers I fi deimlo yn braf yn croen fy hun. Mor hwylus a diddorol.”

Fel gofawlyr ifanc, maent yn gwynebu sialensau amrywiol, ac roedd y cyfuniad o'r prosiect ond hefyd y cyfle i gymdeithasu gydag eraill mewn sefyllfa tebyg yn allweddol bwysig iddynt ac yn newid pwysig iddynt.

Yn yr gwaith asesu drwy'r ysgolion – gwaith ansoddol a meintiol, nid oedd y deiliant yma mor amlwg ar ddau sydd wedi ei nodi isod. Er bod rhai o'r deilliannau canolradd a all arwain at hyn yn cael ei amlygu, e.e. mwy ymwybodol o sut i ofalu am hunan lês, nid oeddent yn cyffwrdd ar hyn. Mae hyn o bosib gan bod y grŵp gofalwyr ifanc yn grwpiau llawer llai ac felly yn cynnig ffocws llawer gwell.

Roedd mwy o gyfle hefyd i fynd yn fwy ddwfn wrth drafod teimladau.

Er fod y deiliant yma yn bwysig i'r gofalwyr ifanc, nid oedd mor bwysig ar deilliannau isod ac roedd gyda sgor o 6/10 gyda 10 sydd yn bwysig iawn.

Deiliant 2 – Teimlo yn fwy positif am y dyfodol

Holwyd yr unigolion yn y grŵp gwirfoddolwyr am newidiadau yn dilyn y prosiect. Roedd pob un yn teimlo yn llawer iawn mwy positif am eu dyfodol ac yn barod i drafod am gynlluniau roedd ganddynt, ond yn llawer mwy hyderus am y cynlluniau yma e.e. brifysgol, neu ryw yrfa arbennig. Roedd hyn yn rhywbeth roedd y swyddog gofal oedd wedi mynychu gyda nhw hefyd yn teimlo oedd yn newid allweddol ynddynt. Cyn y prosiect roeddent yn teimlo yn isel eu hyder ac yn ansicr am eu dyfodol.

Ychydig yn wahanol i'r gofalwyr, roedd y ffocws yn yr ysgolion yn llawer mwy ar rannu teimladau ac y gallu i wneud hyn yn fwy rhwydd, ond hefyd drwy gael amrywiaeth o ffyrdd i fynegi eu teimladau. Daeth hwn yn amlwg fel deiliant ond roedd hwn yn gael ei weld fel deiliant canolradd yma ac felly nid yw hwn wedi ei gynnwys yn y map gwerth ar gyfer y grwoia ysgolion rhag gor - hawlio.

Deiliant 3 – Gwell hunan hyder a hyder yn yr hyn gallent eu cyflawni

Gwell huna hyder oedd y prif ddeiliant ar gyfer pob grŵp o randdeiliaid. Yn yr ysgolion roedd cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol a cael ffocws ar rannu teimladau ac rhoi amser i edrych ar ôl eu hunain yn gyfle iddynt sywli bod eraill yn mynd drwy brofiadau tebyg.

Roedd y prosiect wedi eu galluogi am ffyrdd gwahanol i ymlacio, ond hefyd sut i fynegi eu hunain. Yn yr arolwg survey monkey gyda un ysgol dyma oedd rhai o'r canlyniadau.

Roedd 47% yn dweud eu bod yn fwy ymwybodol o deimladau eraill rŵan.

Roedd 61% yn fwy hyderus yn eu hunain

Roedd yr athrawon hefyd yn atgyfnerthu y newid yma,

“Byddent yn fwy parod i weithio gydag unigolion gwahanol. Bydd yr unigolion mwy tawel yn magu hyderac felly (yn y gobaith) byddent yn fwy parod i wneud gwaith trafod a gwaith grwp yn y gwersi / dosbarthiadau.” Athrawes

Yn y grŵp ffocws gyda gofalwyr ifanc, dyma oedd y deilliant pwysicaf iddynt. Roedd pob un yn trafod am gynlluniau tuag at y dyfodol ac yn dweud eu bod yn llawer mwy hyderus rwan i gyfathrebu a rhannu teimladau. Roedd staff o'r mudiad Gofalwyr Ifanc hefyd yn atgyfnerthu sut roed y rhaglen wedi eu helpu i godi hyder.

Dyma ddeilliant oedd yn berthnasol i nifer o'r bobl ifanc.

Effeithiau negyddol posibl


Mae'n bwysig ystyried os oes unrhyw effaith negyddol wrth fesur gwerth unrhyw brosiect neu weithgaredd. Cafodd y plant gyfle i adrodd ar unrhyw newid annisgwyl neu negyddol yn ystod y gwaith ansoddol a meintiol. Roedd yr adborth yn bositif iawn ar y cyfan.

Un sylw cafodd ei wneud wrth arsylwi'r prosiect a hefyd gan athro / athrawes oedd sut roedd y prosiect yn fwy addas ar gyfer rhai unigolion nac i rai eraill. Gwelwyd bod rhai yn ei weld fel cyfle i wneud rhywbeth gwahanol a chael hwyl, ond bod rhai eraill efallai eisiau cyfle i rannu pryderon a dysgu mwy am sut gallent ymlacio ac edrych ar ôl eu hunain.

Mynegwyd bod yna bryder am rai yn rhannu teimladau neu bryderon dwys, ond efallai nad oedd yna ffordd neu amser i fynd i wraidd hyn neu ddiffyg proses pendant i'w ddilyn. Un sylw a wnaethpwyd yn yr adroddiad byr oedd cael mwy o ffocws, ac efallai cael grwpiau llai wedi eu targedu er mwyn sicrhau bod y gwerth mwyaf yn cael ei greu. Gall weld y gwahaniaeth yn ddeilliannau'r rhai mewn ysgol a'r gofalwyr ifanc gan iddynt brofi mwy o ddeilliannau ac felly roedd y gwerth yn llawer uwch yma.

Astudiaeth Achos 2 – Plentyn o'r grŵp Gofalwyr Ifanc

Roedd Plentyn B ar ddechrau'r prosiect yn: 1) Dweud wrth bawb yn y grŵp ei bod hi ddim yn greadigol ("I can't draw pictures", "We're not gonna do acting, are we?" a 2) Yn dangos llwyth o hyder o un math wrth wneud jôcs ar ben y gweithgareddau. Gellir dehongli'r hyder yma i olygu ei bod ddim yn gyffyrddus yn y sefyllfa newydd yma, ac yn ymateb i hynny wrth wneud sioe o'r sefyllfa.



Un weithgaredd yr ydym yn gwneud ydy cael gafael ar ysbrydoliaeth o'n cwmpas a throi hynny i mewn i gelf neu i mewn i gerdd. Ar ddiwrnod 2, fe wnaethon ni hynny drwy wneud gêm eiriau a chreu cerdd allan o'r geiriau hynny bron cyn i unrhywun allu sylwi.

Erbyn diwrnod 3 pan wnaethon ni'r weithgaredd o gasglu lliwiau o'r tu allan ar sgwâr stici o bapur, y nod oedd i wneud gwaith celf allan o rhain. Ar ôl gwneud hynny wrth rhoi'r sgwariau gyda'i gilydd, fe wnaeth Plentyn B awgrymu, beth am i ni sgwennu geiriau eto yn disgrifio'r sgwariau a gwneud cerdd allan o rhain?

O'r cais syml yma, gallwn gymryd bod hyder a dealltwriaeth yr unigolyn yma o'r celfyddydau a gwydnwch i drïo rhywbeth newydd wedi cynyddu.

Gallwn gymryd ei bod wedi dysgu sgil newydd yn y celfyddydau a hefyd wedi deall bod rhywbeth roedd hi efallai'n teimlo'n ansicr ohono i ddechrau yn bosib wedi'r cyfan.

7.0 Amcangyfrif Gwerth Deilliannau

Y gwahaniaeth rhwng defnyddio SROI a fframweithiau eraill yw ei fod yn rhoi gwerth ariannol ar ddeilliannau. Trwy roi gwerth ariannol arnynt, mae'n caniatáu i ni nid yn unig adrodd stori'r hyn sydd wedi newid ym mywydau pobl, ond hefyd ein galluogi i roi gwerth i'r newidiadau hynny er mwyn cymharu costau a deilliannau. Nid rhoi pris ar bopeth mo hyn, ond modd o'n galluogi i ddangos yr effaith y mae'r gwasanaeth yn ei gael ar randdeiliaid eraill, a'r arbedion posibl y gall ymyraethau eu creu. Mae hefyd yn mynd y tu hwnt i fesur yn unig, gan ganiatáu i fudiadau reoli eu gweithgareddau i sicrhau eu bod yn creu'r effaith orau bosibl i'r bobl bwysicaf un: y plant a phobl ifanc.

7.1 Effeithiau Fi di Fi

Mae dadansoddiadau SROI yn defnyddio egwyddorion cyfrifo safonol i gyfrifo effaith gyffredinol gweithgareddau. Mae rhoi ystyriaeth i unrhyw ffactorau difuddiant, priodoliad, dadleoliad a gostyngiad yn golygu y bydd dadansoddiadau SROI yn osgoi gor-hawlio gwerth nad yw'n ganlyniad o'r gweithgareddau. Mae'r blychau isod yn amlinellu pob un o'r ffactorau effaith.

Difuddiant

Mae hyn yn gofyn pa mor debygol yw hi y gallai deilliant fod wedi digwydd heb i weithgaredd ddigwydd. Felly, er enghraifft, os credir bod siawns o 10% y gallai rhywun fod wedi dod o hyd i waith heb raglen hyfforddi, mae gostyngiad o 10% yng ngwerth y deilliant hwnnw.

Priodoliad

Yn ystyried pa gyfran o ddeilliant a grëir gan sefydliadau/unigolion eraill, ac felly nad yw'n deg i'r dadansoddiad SROI ei hawlio. Er enghraifft, os yw asiantaeth allanol hefyd yn cefnogi rhywun sy'n derbyn hyfforddiant, mae'r sefydliad hwnnw, yn ogystal â'r sefydliad hyfforddi, yn gyfrifol am greu rhywfaint o'r gwerth.

Dadleoliad

Mae hyn yn gofyn a yw deilliant wedi dadleoli deilliannau tebyg yn rhywle arall. Nid yw hyn bob amser yn fesur effaith angenrheidiol, ond mae'n rhaid ei ystyried. Er enghraifft, os yw prosiect yn lleihau gweithgaredd troseddol mewn un ardal, ond yn arwain at gynnydd mewn lleoliadau eraill, mae angen ystyried y deilliannau a ddadleolwyd.

Gostyngiad

Rhaid i ddeilliannau a ragfynegir ar gyfer mwy nag un flwyddyn ystyried cyfradd y gostyngiad. Ar y gyfradd hon mae'r gwerth y gellir ei briodoli i ffocws y dadansoddiad SROI yn lleihau dros gyfnod. Er enghraifft, gall unigolyn sy'n cael hyfforddiant ar gyfer gwaith, yn ystod y flwyddyn gyntaf o'i gyflogaeth, briodoli'r holl werth i'r sefydliad â'i hyfforddodd. Ond, wrth symud ymlaen yn eu gyrfa, mae llai o'r gwerth yn perthyn i'r fenter gyntaf, a mwy i'w profiadau newydd.

7.2 Plant a Phobl Ifanc

Rhan o egwyddor gyntaf Gwerth Cymdeithasol yw gwrando ar brofiadau rhanddeiliaid er mwyn llywio'r asesiad. Fe wnaed hyn drwy chwarae gêm gwerth gyda'r gofalwyr ifanc. Bwriad y gêm yma yw cymharu deilliannau'r prosiect gyda nwyddau neu wasanaethau y gallwn eu prynu a thrwy hynny'n rhoi gwerth ariannol sy'n cyfateb i'r hyn sydd yn bwysig i'r unigolion.

Cafodd y deilliannau fel 'Teimlo'n fwy positif, Gwell hunan barch a Theimlo'n fwy hyderus' eu cymharu gyda digwyddiadau materol y mae modd rhoi gwerth ariannol arnynt fel 'mynd ar wyliau a mynd i gyngerdd neu sinema'. Mae hyn yn fodd i osod gwerth ariannol sy'n cyd-fynd gyda'r hyn sydd yn bwysig i unigolion. Roedd pawb yn gytûn o ran lle'r oedd y deilliannau yn eistedd ac roedd hyn yn cyfateb i werth ar gyfartaledd o £2,950. (Ceir rhagor o wybodaeth am y gwerth yma yn Atodiad A).

O safbwynt y plant mewn ysgolion cynradd ac uwchradd gan na chafwyd cyfle i chwarae'r gêm yma gyda'r grwpiau yma fe ystyriwyd dull arall o osod gwerth ariannol sef y Tabl Gwerth Cymdeithasol HACT (Fersiwn 4),¹¹ sy'n nodi amrywiaeth o werthoedd llesiant. Roedd yna werth o £9,283 ar gyfer Gwell Hyder (pobl ifanc) ond er mwyn sicrhau nad oeddem yn gor-hawlio penderfynwyd defnyddio'r un gwerth a ddefnyddiwyd ar gyfer y gofalwyr ifanc. Fodd bynnag, roedd data'r asesiad cychwynnol a'r ail adolygiad yn darparu'r pellter a deithiwyd o ran y newid i'r unigolyn, ac felly defnyddiwyd cyfran o'r gwerthoedd llesiant. Yn y dyfodol, byddem yn argymhell chwarae'r gêm gwerth gyda sampl cynrychiolwyr o'r ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn sicrhau bod y gwerth yn cyd-fynd gyda'u diddordebau.

¹¹ Gwerthoedd llesiant HACT. Ar gael o <http://www.hact.org.uk/value-calculator>



Tabl 6 – Enghreifftiau o Werthoedd Deilliannau

Deilliant	Y gwerth a bennwyd – mynegir yr holl werthoedd ariannol fesul person fesul blwyddyn	Gwerth y pellter cyfartalog a deithiwyd	Nifer y rhanddeiliaid a gafodd y deilliant
Ysgolion Cynradd – Gwell Hyder	Defnyddiwyd canlyniad y gêm gwerth o £2,950 ar gyfer y deilliant o wella hyder. Cymerwyd 60% o'r gwerth hwn ar sail y pellter a deithwyd, felly £1,770.	O gymryd y pwynt isaf ar raddfa ein holiadur – gofyn i unigolion sgorio yn erbyn mesurau (gwael iawn = 0%, gwael = 25%, iawn = 50%, da = 75%, da iawn = 100%). Y symudiad cyfartalog oedd 60%. Er mai ar faint sampl bach y seiliwyd hyn, roedd y canlyniadau'n cyd-fynd â thôn y sylwadau a wnaed yn y cyfweiliadau – nodwyd hwn fel newid hynod arwyddocaol.	Yn y data o'r ail adolygiad, roedd 61% wedi cael profiad o newid yma, felly 95 o unigolion wrth gynrychioli'r prosiect cyfan.
Ysgolion Uwchradd – Gwell Hyder	Defnyddiwyd canlyniad y gêm gwerth o £2,950 ar gyfer y deilliant o wella hyder. Cymerwyd 60% o'r gwerth hwn ar sail y pellter a deithwyd, felly £1,770.	O gymryd y pwynt isaf ar raddfa ein holiadur – gofyn i unigolion sgorio yn erbyn mesurau (gwael iawn = 0%, gwael = 25%, iawn = 50%, da = 75%, da iawn = 100%). Y symudiad cyfartalog oedd 60%. Er mai ar faint sampl bach y seiliwyd hyn, roedd y canlyniadau'n cyd-fynd â thôn y sylwadau a wnaed yn y cyfweiliadau – nodwyd hwn fel newid hynod arwyddocaol.	Yn y data o'r ail adolygiad, roedd 60% wedi cael profiad o newid yma, felly 40 o unigolion.
Gofalwyr Ifanc – Gwell hunan barch	Defnyddiwyd canlyniad y gêm gwerth o £2,950 ar gyfer y deilliant o wella hyder. Cymerwyd 40% o'r gwerth hwn ar sail y pellter a deithwyd, felly £1,180. Fodd bynnag, roedd y gwerth y deilliant yma yn llai na gwerth / pwysigrwydd Gwell Hyder felly cymerwyd 60% o'r gwerth a rhoi £885 am bob uned o newid.	O gymryd y pwynt isaf ar raddfa ein holiadur – gofyn i unigolion sgorio yn erbyn mesurau ar raddfa 1-10 1 = gwael iawn a 10 = Da iawn. Y symudiad cyfartalog oedd 4 pwynt, sef 40%. Er mai ar faint sampl bach y seiliwyd hyn, roedd y canlyniadau'n cyd-fynd â thôn y sylwadau a wnaed yn y cyfweiliadau – nodwyd hwn fel newid hynod arwyddocaol.	Yn y data o'r ail adolygiad, roedd 70% wedi cael profiad o newid yma, felly 8 o unigolion.

8.0 Cadarnhau Effaith

Er mwyn asesu gwerth cyffredinol deilliannau prosiect Fi di Fi, mae angen inni ganfod faint o'r effaith sydd yn ganlyniad penodol i'r prosiect. Mae SROI yn defnyddio egwyddorion cyfrifo safonol i ddisgowntio'r gwerth, gan ofyn:

- Beth fyddai wedi digwydd beth bynnag (difuddiant)?
- Pa gyfraniad a wnaed gan eraill (priodoliad)?
- A yw'r gweithgareddau wedi dadleoli gwerth o rywle arall (dadleoliad)?
- Os rhagolygir bod deilliant am barhau mwy nag 1 flwyddyn, ar ba gyfradd fydd y gwerth a grëwyd gan brosiect yn lleihau yn y blynyddoedd i ddod (gostyngiad)?

Mae defnyddio'r pedwar mesur hyn yn creu dealltwriaeth o gyfanswm gwerth net y deilliannau ac yn helpu i gadw at yr egwyddor o beidio â gor-hawlio.

8.1 Difuddiant

Mae difuddiant yn ein galluogi i ystyried beth fyddai'n digwydd pe na fyddai'r gwasanaeth ar gael.

Mae posibiliad o hyd y byddai'r unigolion wedi profi'r un deilliannau trwy weithgaredd arall neu drwy gael cefnogaeth o rywle arall.

Mynegodd yr unigolion yn y grŵp ffocws gyda gwirfoddolwyr ifanc nad oeddent yn cael llawer o gyfle o fewn i'r ysgol i ddysgu am y celfyddydau. Roedd un yn dweud nad ydynt byth yn cael gwneud unrhyw fath o weithgareddau tebyg. Fodd bynnag, drwy'r mudiad Gwirfoddolwyr Ifanc mi roeddent yn cael amryw o weithgareddau yn fisol a oedd yn helpu iddynt gysylltu gydag eraill a rhai o'r gweithgareddau yn helpu i ddatblygu hyder.

Yn yr ysgolion, roedd y weithgaredd yn rywbeth gwahanol iddynt ac eto rhai yn mynegi nad ydynt yn cael nifer o weithgareddau oedd yn dathlu y celfyddydau. Cafwyd adborth gadarnhaol gan athrawon hefyd,

“Mae y rhaglen yma’n cael effaith gan bod heb os yn magu hyder y disgyblion yn ystod yr wythnos.

Mae trafod a gwneud yr ysgolion yn ymwybodol o’r hyn a llwyddodd blwyddyn 4 i wneud yn holl bwysig, ac mae’r neges yn cael ei ddsbarthu i’r ysgol gyfan.”Athro / Athrawes

Defnyddiwyd y cyfweiliadau a gynhaliwyd gydag unigolion a rhanddeiliaid eraill, a chanlyniadau’r ail adolygiad i gyrraedd yr amcangyfrif rhesymol yn Nhabl 7 isod.

Tabl 7 – Gwerth Difuddiant

Deiliant	Difuddiant	Cyfiawnhad
Ysgolion Cynradd	60%	Nid oedd llawer o gyfle iddynt ddysgu am y celfyddydau, ond roedd yna ychydig o weithgareddau gan yr ysgol yn canolbwyntio ar hunan les. Mae siawns y gallai’r deiliant hwn fod wedi digwydd beth bynnag trwy weithgaredd arall neu fudiad arall, felly rhoddir difuddiant o 60% - sef graddfa ganolig.
Ysgolion Uwchradd	60%	Nid oedd llawer o gyfle iddynt ddysgu am y celfyddydau, ond roedd yna ychydig o weithgareddau gan yr ysgol yn canolbwyntio ar hunan les. Mae siawns y gallai’r deiliant hwn fod wedi digwydd beth bynnag trwy weithgaredd arall neu fudiad arall, felly rhoddir difuddiant o 60% - sef graddfa ganolig.
Gofalwyr ifanc	60%	Mae’r mudiad Gofalwyr Ifanc yn trefnu nifer o weithgareddau sydd yn rhoi cyfle i’r gofalwyr ymlacio a chael ymgysylltu gydag eraill yn yr un sefyllfa. Fodd bynnag, roedd y pobl ifanc a’r staff yn teimlo fod y rhaglen yma yn gyfle iddynt edrych ar ffyrdd whanaol o ddelio gyda phroblemau ac yn gyfle i feddwl am y dyfodol. Gan mai sampl bach oedd, er mwyn osgoi gor-hawlio, defnyddiwyd gradd canolig yma.

8.2 Priodoliad

Mae priodoliad yn golygu y gallwn gydnabod cyfraniad eraill tuag at gyflawni’r deilliannau hyn. Mae bob amser yn bosibl y bydd eraill yn cyfrannu at unrhyw newidiadau ym mywydau pobl, fel aelodau o’r teulu neu fudiadau eraill. Mae priodoliad yn ein galluogi i weld faint o’r newid sy’n digwydd o

ganlyniad i gefnogaeth y prosiect hwn.

Gofynnwyd yn benodol i unigolion faint o'r newidiadau hyn oedd wedi digwydd o ganlyniad i'r prosiect hwn yn yr survey monkey a hefyd y grŵp ffocws. Roedd rhai yn dweud bod yn fudiadau neu athrawon hefyd yn helpu gyda hyder a hunan les ond bod hwn yn gyfle i roi ffocws arbennig ar hyn.

Roedd yr ysgolion hefyd yn teimlo eu bod nhw yn elwa o'r dulliau a ddysgwyd,

“Diolch o galon am eich holl waith caled, mae'r ysgol a'r disgyblion wedi elwa llawer.”

“Effaith cadarnhaol- mae'n amser i'r disgyblion gael amser i fyfyrrio ac ystyried eu teimladau heb orfod poeni am ragfarn. “

Rhoddir priodoliad o 60% - graddfa ganolig eto gan mai sampl bach oedd yn cymryd rhan er mwyn sicrhau nad oedd gor-hawlio.

8.3 Dadleoliad

Mae angen inni ystyried a yw'r deilliannau yn dadleoli deilliannau eraill yn rhywle arall. Er enghraifft, beth os ydyn ni'n mynd i'r afael â gweithgaredd troseddol ar un stryd, a bod y broblem yn symud i rywle arall, yn hytrach na diflannu? Mae'r prosiect yma yn eithaf unigryw felly nid yw'n dadleoli unrhyw beth.

8.4 Gostyngiad

Nod y prosiect yw helpu unigolion gael mwy o adnoddau er mwyn eu helpu gwarchod ei hunan les, ac i ymlacio. Cwrs byr yw Fi di Fi ac felly nid oes modd hawlio am fwy na 12 mis o werth ac felly nid oes angen cynnwys gostyngiad.

9.0 Canlyniadau SROI

Mae'r rhan hwn o'r adroddiad yn cyflwyno canlyniadau cyffredinol y dadansoddiad SROI o'r prosiect Fi di Fi a ddarparwyd gan Cwmni Frân Wen. Atgyfnerthir y canlyniadau hyn gan y saith egwyddor SROI a gymhwyswyd yn ofalus i bob agwedd o'r dadansoddiad. Mae'r canlyniadau yn dangos y cyfraniad cadarnhaol y mae'r prosiect Fi di Fi yn ei wneud trwy ymroddiad y staff i greu newid cadarnhaol ym mywydau y pobl ifanc.

Mae'r prosiect yn rhoi amser i'r Plant a Phobl Ifanc edrych ar opsiynau gwahanol ar sut i fynegi ei hunain, ond hefyd eu helpu i ddatblygu hyder yn eu hunain ac sicrhau bod trafod teimladau a chael cyfle i ymlacio a edrych ar ôl hunan les yn bwysig.

Mae'r canlyniadau yn Nhabl 8 yn dangos adenillion positif i unigolion a fu yn rhan o'r prosiect ac a brofodd ddeilliannau cadarnhaol. Seiliwyd hyn ar ddata cyfredol ond hefyd ar ragolwg o'r canlyniadau ar sail ymchwil eilaidd.

Tabl 8 – Gwerth Presennol a Grëwyd fesul Unigolyn ar y Prosiect

Rhanddeiliad	Gwerth cyfartalog ar gyfer pob unigolyn ar y prosiect
Unigolion	£281

Mae'r canlyniadau cyffredinol yn Nhabl 14 yn amlinellu cyfanswm y gwerth a grëwyd, cyfanswm y gwerth presennol (wedi'i ddisgowntio 3.5%), y gwerth net presennol, ac yn y pen draw, y gymhareb SROI.

Tabl 14 – Prif Ganlyniadau SROI

Cyfanswm y gwerth a grëwyd	£
Cyfanswm y gwerth presennol	£42,196
Gwerth y buddsoddiad	£11,212
Gwerth net presennol (gwerth presennol minws y buddsoddiad)	£30,894
Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad	<u>£3.76:1</u>

Mae'r canlyniad o £3.76:1 yn dangos bod £3.76 o werth yn cael ei greu am bob £1 a fuddsoddir ym mhrosiect Fi di Fi.

10.0 Dadansoddiad Sensitifrwydd

Mae'r canlyniadau yn dangos y gwerth arwyddocaol a grëwyd gan Fi di Fi a ddarparwyd gan Cwmni Frân Wen, a seilir y canlyniadau ar ddefnyddio egwyddorion y fframwaith SROI. Er bod tybiaethau cynhenid o fewn y dadansoddiad hwn, mae cadw at yr egwyddor o beidio gor-hawlio yn arwain at bosibilrwydd o danbriso rhai o'r deilliannau perthnasol ar faterion fel parhad yr effaith.

Bwriad cynnal dadansoddiad sensitifrwydd yw asesu unrhyw dybiaethau a gawsant eu cynnwys yn y dadansoddiad. Mae rhoi prawf ar un newidyn ar y tro, megis nifer, parhad, difuddiant neu priodoliad, yn golygu y gellir canfod unrhyw agweddau sy'n effeithio'n sylweddol ar y canlyniad. Os pennir bod unrhyw fater yn cael effaith berthnasol, dylid pwysu a mesur a rheoli'r dybiaeth hon yn ofalus wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen. I roi prawf ar y tybiaethau yn y dadansoddiad hwn, gwnaethpwyd newidiadau sylweddol i nifer o agweddau er mwyn canfod gwerth eu heffaith. Cyflwynir crynodeb o'r canlyniadau yn Nhabl 9.

Tabl 9 – Crynodeb o'r Dadansoddiad Sensitifrwydd

Newidyn	Tybiaeth bresennol	Tybiaeth ddiwygiedig	SROI diwygiedig	Cyfran o newid
Plant Cynradd – Gwell hyder	Nifer: 95	Nifer: 45	2.50	33.5%
	Difuddiant: 60%	Difuddiant: 90%	1.96	47.8%
	Priodoliad: 60%	Priodoliad: 30%	5.56	47.8%
	Gwerth: £1,770	Gwerth: £800	2.45	34.8%
Gofalwyr ifanc – Teimlo yn fwy positif am y dyfodol	Nifer: 8	Nifer: 6	3.73	0.7%
	Difuddiant: 60%	Difuddiant: 90%	3.68	2.1%
	Gwerth: £1,032	Gwerth: £500	3.70	1.5%

Er bod rhai o'r profion sensitifrwydd yn dangos newidiadau i'r canlyniadau, mae graddfa'r newidiadau a wnaed a gwirio'r tybiaethau a'r data gyda'r rhanddeiliaid yn golygu bod y canlyniadau'n dangos y byddai'r newidiadau'n parhau i fod yn gadarnhaol, hyd yn oed pe bai newid sylweddol i un newidyn. Mae'r effaith mwyaf arwyddocaol yn y dadansoddiad sensitifrwydd wedi'i seilio ar newid yn y deilliannau o fewn yr ysgolion. Mae'n bosibl bod hyn oherwydd y nifer uwch o blant sydd yn derbyn y gwasanaeth yma.

Fodd bynnag, mae angen pwysleisio bod yna werth mwy y pen ar gyfer y gofalwyr ifanc a hyn o bosib gan bod y cwrs gyda ffocws gwell a gyda grwpiau llai. Byddai cael ffocws pendant hefyd yn helpu'r mudiad i reoli'r gwerth.

11.0 Casgliad

Mae'r adroddiad hwn wedi dangos bod prosiect Fi di Fi gan Cwmni Frân Wen wedi creu gwerth o fwy na £42,000, ac wedi creu gwerth o £3.76 am bob £1 a fuddsoddwyd; golyga hyn, mewn termau ymarferol, fod bywydau pobl wedi cael eu newid er gwell.

Mae deilliannau'r prosiect hwn yn dangos bod nifer o blant a phobl ifanc wedi elwa o brosiect Fi di Fi ac wedi gwella eu hunan hyder drwy gymryd rhan yn y gweithgareddau. I lawer, dyma un o'r ychydig brofiadau iddynt gael o'r celfyddydau a chael edrych a dysgu mwy am y dulliau yma. Roedd nifer yn teimlo fod ganddynt nawr mwy o opsiynau o beth i'w wneud i deimlo yn well os ydynt yn teimlo dan bwysau / straen. Roedd nifer hefyd yn teimlo yn fwy agored i drafod am eu teimladau ond hefyd i barchu teimladau eraill.

- Gofalwyr ifanc yn adrodd newid positif ac wedi adnabod y deilliannau canlynol; **Gwell hyder yn eu hunain, teimlo yn fwy positif am y dyfodol a gwell hunan barch.**
- Cafwyd disgyblion yn yr ysgolion hefyd profiad positif gyda nifer yn dweud bod eu hyder wedi gwella. Fodd bynnag, drwy ymgysylltu gyda rhanddeiliaid cytunwyd bod yna rai disgyblion byddai yn elwa mwy o'r rhaglen nac eraill a byddai mwy o ffocws a grwpiau llai o bosib yn helpu i gynyddu'r effaith yma fel gwelwyd gyda'r gofalwyr ifanc.
- Roedd athrawon yr ysgolion a staff mudiad Gofalwyr Ifanc yn cytuno gyda'r deilliannau ac yn gweld newid yn y plant a phobl ifanc.
- Mae deilliannau Fi di Fi yn cyd-fynd gyda'r nodau llesiant Cymru Iachach a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu o dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

12.0 Argymhellion

1) **Casglu data** – mae sicrhau bod gennym ddata gwaelodlin, a chynnal adolygiad hanner ffordd ac adolygiad ar y diwedd, yn hanfodol er mwyn deall a oes unrhyw newid yn digwydd, yn ogystal â faint o newid, ac a oes gwahaniaethau rhwng anghenion gwahanol unigolion. Argymhellir felly bod angen i unrhyw barhad o’r cynllun hwn, **fuddsoddi amser ac arian i sicrhau bod systemau a phrosesau addas ar waith i fesur gwerth cymdeithasol**, a dylid ymestyn hyn hefyd i gynnwys rhanddeiliaid pwysig eraill. Pan gaiff data o’r fath ei gasglu dros gyfnod o amser, bydd potensial i ddefnyddio’r wybodaeth a gesglir i oleuo penderfyniadau. Yn y pen draw, golyga hyn nad cael ei fesur yn unig mae gwerth, ond cael ei reoli i wella effeithiau’r prosiect. Fodd bynnag , mae sut rydym yn gofyn am y data yma yn amrywio ac yn bwysig gwneud hynny sydd yn addas ar gyfer y gweithgaredd ac ar gyfer y rhanddeiliaid rhag gwneud unrhyw niwed.

2) Gwell ffocws

- Yn yr adroddiad byr ar ddiwedd blwyddyn 1 – fe nodwyd efallai bod angen mwy o ffocws er mwyn sicrhau eu bod yn targedu'r bobl gywir. Drwy’r gwaith gyda gofalwyr ifanc, mae hyn wedi dod yn fwy amlwg. Gwelwyd bod y gwerth ar gyfer y gofalwyr ifanc yn llawer uwch, a'r newidiadau yn ymddangos yn fwy cynaliadwy. Er bod disgyblion mewn ysgolion wedi gweld gwerth, bydd yn fanteisiol i gydweithio gydag ysgolion ac edrych ar le mae’r angen pennaf ar gyfer y sesiynau yma.

13.0 Atodiadau

A Gêm Gwerth – Chwefror 2020

Rhestr nwyddau / Gwasanaethau gallent eu prynu	Deilliannau	
Gwyliau 14 noson yn Sbaen – all inclusive		Cafwyd pris am 14 noson gan Al yn Sbaen mis Medi ar wefan Jet2
	Rhodddwyd y deilliannau i gyd yma wrth chwarae y gêm, felly roedd y gwerth rhywle rhwng y gwyliau a'r cyngherddi	Finanical proxy £2,950
Cyngerdd (megis Billie Eylish / Coldplay) dwywaith y flwyddyn yn cynnwys gwesty a teithio		Pris am docynnau ar gyfartaledd ydy £80-100, hefyd tren a gwesty am noson
Pas blynyddol i'r sinema		
4 noson yng Nglanllyn		

Mewnbynnau

Deilliannau Canolradd / Tymor byr

Deilliannau tymor hir

Cwrs Fi Di Fi

Cael cyfle newydd i wneud rhywbeth gwahanol

Cyfle i gael hwyl

Cael dod i adnabod pobl newydd sydd yn cael profiadau tebyg

Cael gwneud atgofion da

Cyfle i ddysgu sgiliau newydd

Cyfle i ddysgu mwy am y celfyddydau a ffyrdd gwahanol o fynegi teimladau

Creu ffrindiau newydd

Sicrwydd am bethau (teimladau)

Dod i adnabod fy hunan

Gallu i ymlacio

Gallu bod yn onest gyda fy hunan ac eraill

Gallu datrys problemau

Mwy ymwybodol o sut i ymdopi gyda theimaldau ac beth i'w wneud os yn drist

Gwell hunan barch

Teimlo yn fwy positif am y dyfodol

Gwell hyder yn fy hunan a beth gallaf ei wneud

